



(i) Nod ac Amcanion y Prosiect

Nod

Nod y ganolfan ydi canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd i bobl sy'n byw yn Wrecsam, Sir y Fflint a'r ardaloedd cyfagos i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol ym mhob agwedd ar eu bywyd bob dydd, trwy ganolbwyntio ar dynnu sylw at werth y Gymraeg fel sgil ar gyfer y gweithle.

Mae gan y ganolfan, sydd wedi'i lleoli ar safle lâl Coleg Cambria yn Wrecsam, bresenoldeb proffil uchel yng nghanol tref Wrecsam i hyrwyddo a chynyddu proffil y Gymraeg fel sgil gwerthfawr ar gyfer cyflogaeth. Mae'n canolbwyntio ar greu gweithlu dwyieithog cryfach a fydd yn galluogi unigolion a chymunedau i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ystod lawn o sefyllfaoedd bob dydd arferol, gan ddod yn norm yn hytrach na'r eithriad yn y rhan hon o Gymru.

Mae hyn o fudd i gyflogwyr lleol yn y sectorau cyhoeddus a phreifat yn ogystal â sefydliadau trydydd sector, sy'n awyddus i wella eu gwasanaeth i gwsmeriaid dwyieithog.

Yn y tymor hir, bydd y ganolfan hon yn atgyfnerthu sefyllfa'r Gymraeg fel iaith egniol fyw, sgil gwerthfawr ar gyfer y gweithle ac yn hwb go iawn i'r economi leol yn yr ardal hon.



Amcanion

- Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd economaidd
- Defnyddio'r iaith yn ehangach wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd mewn ystod eang o sefyllfaoedd
- Cynyddu ymwybyddiaeth pobl o werth y Gymraeg fel sgîl defnyddiol mewn bywyd modern
- Canlyniadau gwell ar gyfer dysgwyr wrth iddynt ennill cymwysterau Cymraeg
- Sefydliadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau'n gweithio mewn partneriaeth a'i gilydd yn well i hyrwyddo ac i estyn y Gymraeg.



(ii) Meysydd Strategol

Mae Camu yn canolbwyntio yn benodol ar gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac felly mae'r rhan mwyafrif o'r gweithgareddau a'r canlyniadau yn ywmeud a hynny. Serch hynny mae'r ganolfan wedi cyfrannu at wireddu nodau'r meysydd strategol fel a ganlyn:

Meysydd Strategol	Targedau Camu	Canlyniad	Effaith
<p>Teuluoedd</p> <p><u>Nod:</u> Annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd</p> <p><u>Canlyniad a ddymunir:</u> Cynnydd yn nifer y teuluoedd lle defnyddir y Gymraeg fel y brif iaith gyda'r plant gan o leiaf un oedolyn o'r teulu sydd mewn cyswllt agos â nhw.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal cyrsiau Cymraeg i'r Teulu er mwyn hybu'r defnydd o Gymraeg o fewn teuluoedd. • Trefnu gweithgareddau i deuluoedd 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyrsiau Cymraeg i'r Teulu yn cael eu cynnal yn wythnosol a'r ganolfan wedi cael ei defnyddio fel hwb ar gyfer staff dysgu Cymraeg i'r Teulu • Gweithgareddau wedi eu trefnu ar gyfer teuluoedd mewn partneriaeth efo'r Urdd a'r Mudiad Meithrin • Sesiynau wythnosol Sgiliau Cymraeg wedi eu darparu i fyfyrwyr BTEC Gofal Plant 16-19 yn cynnwys datblygu sgiliau ieithyddol 	<p>Codi ymwybyddiaeth o werth addysg Gymraeg ymhlith rhieni ifanc</p> <p>Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfa anffurfiol</p> <p>Codi hyder pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg wrth iddyn nhw hyfforddi i weithio ym maes gofal plant</p>



<p>Plant a Phobl Ifanc</p> <p><u>Nod:</u> Cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith.</p> <p><u>Canlyniad a ddymunir:</u> Plant a phobl ifanc yn defnyddio mwy o'r Gymraeg.</p>	<ul style="list-style-type: none">• Cyngor i bobl ifanc 14+ ar sut i wella eu sgiliau ar gyfer y gweithle• Hyfforddiant iaith dwys i ddisgyblion 14-16• Nifer o gyrsiau Cymraeg yn y Gweithle i bobl ifanc yn gysylltiedig â meysydd galwedigaethol ym maes Gofal, Gofal Plant, Gwasanaethau Cyhoeddus, Busnes, Manwerthu ac Arlwyo	<ul style="list-style-type: none">• Prosiect datblygu sgiliau Cymraeg weid ei gynnal ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog ysgolion cyfrwng Saesneg sir Wrecsam – 50 o ddisgyblion yn rhan ohono.• Sesiynau Cymraeg yn y Gweithle dwys yn cael eu darparu i fyfyrwyr galwedigaethol o Goleg Cambria mewn meysydd blaenoriaeth megis Gofal a Gwasanaethau Cyhoeddus. Dros 700 o fyfyrwyr yn elwa o'r profaid yn flynyddol.• Gweithdai Pwysigrwydd y Gymraeg fel Sgil yn y Gweithle wedi cael eu cynnal ym maes Gofal, Gofal Plant, Celfyddydau Perfformio a'r Cyfryngau. <p>Enghreifftiau o 2 ddigwyddiad yn 2017</p> <p>Gweithdy Bit Bocsio</p> <p>Mr Phormula y bît-bocsiwr y gweithio efo myfyrwyr i greu Rap dwyieithog yn</p>	<p>Codi hyder a chynyddu'r defnydd o Gymraeg ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd Saesneg</p> <p>Codi ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg fel sgil pwysig ar gyfer y gweithle ymhlith pobl ifanc</p> <p>Gwella sgiliau a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg pobl ifanc mewn meysydd blaenoriaeth</p> <p>Presenoldeb Canolfan Gymraeg ar safle'r coleg yn arwydd clir i fyfyrwyr o werth yr iaith ac yn le iddyn nhw alw yno os am unrhyw gymorth i ddatblygu eu sgiliau.</p>
---	---	---	--



		<p>dathlu'r Gymraeg mewn modd modern, hwyliog.</p> <p>Gweithdy Gofal</p> <p>30 o fyfyrwyr Iechyd a Gofal yn cael cyfle i glywed am bwysigrwydd y Gymraeg i gleifion, ac i'r proffesiynau iechyd. Cangen Prifysgol Glyndŵr a Choleg Cambria o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol oedd yn gyfrifol am drefnu'r digwyddiad ac yn bresennol roedd Dr Hefin Jones, Deon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Y siaradwyr oedd Sandie Grieve, o Ofal Cymdeithasol Cymru, Dr Meilyr Emrys a Ceri Phillips Swyddogion Iaith Gymraeg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Siwan Owen, Nyrs Arbenigol Hematoleg o Ysbyty Glan Clwyd a Wendy Fowler Dirprwy Gyfarwyddwr yr Adran Iechyd a Gofal yng Ngholeg Cambria.</p>	
<p>Cymunedau</p> <p><u>Nod:</u> Cryfhau safle'r Gymraeg o</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithgareddau/digwyddiadau cymdeithasol i oedolion • Sesiynau siarad ac ymarfer i 	<ul style="list-style-type: none"> • Un gweithgaredd cymdeithasol yn cael ei gynnal yn fisol yn y ganolfan yn amrywio o ddangos 	<p>Cyfle i fudiadau sy'n blaenoriaethu'r Gymraeg gydweithio i hyrwyddo'r Gymraeg</p>



<p>fewn y gymuned.</p> <p><u>Canlyniad a ddymunir:</u> Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau ar draws Cymru.</p>	<p>oedolion</p> <ul style="list-style-type: none">• Creu canolfan lle mae mudiadau'r iaith yn gweithio mewn partneriaeth	<p>ffilm Gymraeg i gwis i ffair Nadolig</p> <ul style="list-style-type: none">• Sesiynau Paned a Sgwrs yn cael eu cynnal bob wythnos gan gynnig cyfle i fynychwyr ymarfer eu Cymraeg mewn sefyllfa anffurfiol• Yr Urdd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg Cyngor Wrecsam wedi eu lleoli yn Camu.• Panel Ymgynghorol wedi cael ei sefydlu efo aelodau o fudiadau sy'n blaenoriaethu'r Gymraeg yn sireodd Wrecsam a Fflint• Rhagbrofion Eisteddfod Cylch yr Urdd yn eu cynnal gyda oddeutu 300 o blant a rhieni yn mynychu• Fforwm Sirol / Menter Iaith yn cynnal cyfarfodydd yn Camu• Mudiadau allanol yn defnyddio'r ganolfan ar gyfer cyfarfodydd ee Carchar Berwyn, Llywodraethwyr y Coleg,	<p>yn ehangach a chynnal digwyddiadau</p> <p>Cyfle i unigolion ddefnyddio'r iaith yn anffurfiol.</p> <p>Codi ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr/mudiadau o'r angen i gynnal cyfarfodydd yn ddwyieithog</p>
--	--	---	---



		Prifysgol Bangor, Spectrwm – yn amodol i unrhyw fudiad sy'n defnyddio'r ganolfan i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cyfarfod.	
<p>Gweithle</p> <p><u>Nod:</u> Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.</p> <p><u>Canlyniad a ddymunir:</u> Mwy o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer o Gyrsiau Cymraeg yn y Gweithle a rhaglenni hyfforddiant penodol • Cyrsiau i oedolion wedi'u teilwra • Cyrsiau Cymraeg i Oedolion 	<ul style="list-style-type: none"> • Cynhadledd a Hyfforddiant Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain – 45 o diwtoriaid yn mynychu • 25 o ddsbarthiadau Dysgu Cymraeg (o lefelau Mynediad i Hyfedredd) yn cael eu cynnal yn CAMU yn wythnosol gyda 80 o staff o weithleoedd lleol yn mynychu yn cynnwys CBSW • Cyrsiau wedi eu teilwra yn cael eu darparu ar gyfer staff Gwasanaethau Cymdeithasol CBSW/AVOW/Sw Caer/Heddlu Gogledd Cymru/Gwasanaeth Tan • Clinigau Iaith Gymraeg yn cael eu cynnal bob wythnos - sesiynau galw heibio sy'n cynnig cefnogaeth unigol allan o wersi 	<p>Codi ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg fel sgil gwerthfawr yn y gweithle</p> <p>Creu siaradwyr Cymraeg hyderus ar gyfer gweithleoedd lleol</p> <p>Cynyddu cyfleoedd i bobl leol ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith</p>



		<ul style="list-style-type: none"> • Cysiau Methodoleg Iaith yn cael eu cynnal gan Athrawon Ymgynghorol ar gyfer y Gymraeg CBSW i athrawon/cymhorthyddion yn wythnosol. • Sesiynau Cymraeg Bob Dydd yn cael eu cyflwyno i staff Coleg Cambria • Sesiynau i aseswyr – NVQ • Gweithdai Ymwybyddiaeth Iaith a Dysgu Cymraeg – Consortiwm Dysgu yn y Gwaith • Gweithdy Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain – Wrecsam a Fflint 	
<p>Gwasanaethau Cymraeg</p> <p><u>Nod:</u> Cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg ar gyfer dinasyddion.</p> <p><u>Canlyniad a ddymunir:</u> Mwy o wasanaethau Cymraeg o safon uchel ar gael i'r cyhoedd a mwy o ddefnydd yn cael ei</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Datbygu sgiliau a chynyddu'r defnydd o Gymraeg mewn gweithleodd yn y gogledd ddwyrain 	Fel yr uchod	Fel yr uchod



<p>wneud o'r gwasanaethau hynny.</p>			
<p>Y Seilwaith</p> <p><u>Nod:</u> Cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith</p> <p><u>Canlyniad a ddymunir :</u> Bod mwy o adnoddau ac arfau ar gael i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys o fewn yr amgylchedd digidol.</p>	<p>Cynnal gweithdai Technoleg a'r Gymraeg ar gyfer oedolion a phobl ifanc</p>	<ul style="list-style-type: none">• Gweithdai Google Classroom wedi eu cynnal i staff y coleg – 23 o staff wedi mynychu• Gweithdai apiau Cymraeg wedi eu cynnal i staff y coleg – 100 o staff wedi mynychu• Gweithdy creu gwefannau dwyieithog wedi ei gynnal i bobl ifanc – 18 o bobl ifanc wedi mynychu	<p>Codi ymwybyddiaeth oedolion a phobl ifanc o werth technoleg wrth ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg</p>



(iii) Tystiolaeth o'r hyn a gyflawnwyd (yn cynnwys tystiolaeth a gasglwyd gan randdeiliad a buddiolwyr, lle bo hynny'n berthnasol)

Defnyddiwyd 3 dull i fesur effaith sef Grwpiau Ffocws, Holiaduron a Chyfweliadau .

GRWPIAU FFOCWS

Cynhaliwyd 3 Grwp Ffocws efo cynrychiolwyr o'r gweithleodd canlynol sydd wedi derbyn hyfforddiant Cymraeg yn y gweithle yn Camu:

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cyngor Bwrdeisdref Sirol Wrecsam
- Y Groes Goch Brydeinig
- Hunangyflogedig

Cafodd y grwpiau eu harwain gan hwylusydd (Rheolwr Cymraeg i Oedolion Coleg Cambria) a oedd yn holi ynglyn a'r effaith y mae dilyn hyfforddiant yn y ganolfan wedi ei gael arnynt gan ganolbwynito ar y ddarpariaeth a'i heffaith ar eu defnydd, hyder, agwedd ac ymwybyddiaeth.

HOLIADURON

Dosbarthwyd holiadur ymysg pobl ifanc oedran 16-25 sydd wedi derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg yn Camu. Cafodd yr holiadur ei weithredu yn defnyddio 'google Docs' gyda chwestiynau ansoddol yn seiliedig ar effaith y ddarpariaeth ar eu defnydd, hyder, agwedd a'u hymwybyddiaeth. Cafodd 60 o fyfrwyr wahoddaid i gymryd rhan a gwnaeth 47 o ei dychwelyd.

CYFWELIADAU



Cynhaliwyd cyfweiliadau unigol (6 cyfweiliad) efo defnyddwyr y ganolfan yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth a'i heffaith ar eu defnydd, hyder, agwedd ac ymwybyddiaeth.

PRIF GANFYDDIADAU

Dyma drawstoriad o'r adborth a gafwyd:

DEFNYDD

"Dydw i ddim yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn y gweithle, ond rwyf wedi cynyddu fy ngwybodaeth o ble y'i defnyddir a sut y gallaf ei defnyddio" - Ymgynghorydd Polisi

"Rwy'n gallu siarad Cymraeg yn amlach rŵan gyda chydweithwyr rhugl a darllen mwy yn Gymraeg gan fod pob neges e-bost mewnol yn ddwyieithog. Gallaf gymryd negeseuon sylfaenol pan fydd cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg yn galw" - Swyddog Rheoleiddio Diwydiant

"Rwy'n ymdrechu i sgwrsio â'n tenantiaid yn Gymraeg sy'n gwella ein gwasanaeth i bobl ddwyieithog." - Saer

"Erbyn hyn rydw i'n gallu deall geiriau o frawddegau a chael sgwrs" – Plastrwr

"Mae rhai tenantiaid yn siarad Cymraeg ac mae wedi fy helpu i siarad efo nhw." - Trydanwr

"Pan yn cadeirio cyfarfod dwi'n defnyddio'r Gymraeg yn fwy aml." - Cynghorydd ac Aelod Arweiniol

"Rydw i nawr yn gwneud ymdrech fwy ymwybodol i siarad Cymraeg efo dysgwyr a chyflogwyr" - Aseswr



"Dwi'n ateb negeseuon e-bost yn ddwyieithog, deall negeseuon e-bost Cymraeg, gallu defnyddio mwy o Gymraeg mewn sesiynau addysgol â phobl ifanc."
- Cydlynnydd Addysg Ieuenctid

"Rwyf yn defnyddio'r Gymraeg fwyfwy gyda chydweithwyr" - Gweithiwr Cymdeithasol

"Dydw i ddim yn siarad Cymraeg adre nag efo fy ffrindiau – ond dwi'n gallu siarad Cymraeg yn Camu." – Myfyriwr 17
Oed

"Dwi'n siarad Cymraeg yn fy lleoliad gwaith rwan. Faswn i heb wneud hynny cyn i mi ddechrau gwella fy sgiliau yn y coleg." Myfyriwr Gofal Plant 18 oed

HYDER

"Mae wedi rhoi cymaint o hyder i mi siarad Cymraeg yn gymdeithasol gyda ffrindiau a theulu. Rwy'n gwrandao ar Radio Cymru yn amlach gan fy mod yn deall mwy. Rwy'n falch o ddechrau sgysiau yn y gwaith yn Gymraeg gyda'r cydweithwyr rhugl!" - Swyddog Rheoleiddio Diwydiant

"Mae wedi rhoi'r hyder i mi i geisio defnyddio ymadroddion bach yn y gwaith." - Saer

"Diolch i'r gwersi mae gen i fwy o hyder i siarad â theithio o amgylch Cymru." Cynrychiolydd Cwsmer

"Dwi'n teimlo'n llawer mwy hyderus wrth siarad Cymraeg." - Gweinyddwr

"Mae fy hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith yn cynyddu bob dydd" - Asesydd Peirianeg

"Mae fy hyder i sgwennu yn Gymraeg wedi cynyddu'n helaeth gyda gwybodaeth estynedig am batrymau a geirfa. Mae ysgrifennu'n llawer haws gan fod gennyh chi amser i feddwl amdano a dim pwysau o'i gymharu â siarad!" - Cydlynnydd Addysg Ieuenctid

"Dwi'n fwy hyderus i siarad Cymraeg hefo pobl o'r un grŵp oedran a fi." - Myfyriwr 17 oed

"Mae'r cywilydd o ddefnyddio Cymraeg ers yr ysgol uwchradd wedi diflannu a rŵan dwi'n hapus a hyderus i siarad heb boeni." - myfyriwr Gofal 17 oed

GALLU



"Mae fy ngallu i ddefnyddio Cymraeg yn gwella trwy ymarfer yn y gwersi." - Ymgynghorydd Polisi

"Rwy'n credu fy mod yn gallu dweud mwy yn Gymraeg a chael sgysiau llawn. Rwy'n teimlo fy mod yn gallu siarad ar gyflymder mwy naturiol "- Swyddog Adnewyddu Diwydiant

"Roedd fy ngwybodaeth sylfaenol am yr iaith yn eithaf da, mae wedi helpu i ddod â'r Gymraeg yr oeddwn i'n arfer ei ddefnyddio yn ifanc yn ol." - Trydanwr

"Dwi'n gallu gwneud cyfweiliadau ar Radio Cymru a S4C rwan. " - Cynghorydd

"Mae o wedi adnewyddu yr hyn a ddysgwyd yn yr ysgol a geirfa gynyddol" - Swyddog Cuddio Cwsmer

"Rwy'n dal yn teimlo mai siarad yw'r agwedd fwyaf heriol o ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Ond mae fy ngallu i ddefnyddio ymadroddion / geiriau allweddol mewn sesiynau addysgol wedi gwella'n wirioneddol "- Darlithydd

"Rwy'n gallu siarad efo siaradwr Cymraeg rhugl yn effeithiol rwan. " - myfyriwr 18 oed

"Rwy'n hyderus i ddefnyddio termau ar leoliad gwaith." - myfyriwr 19 oed

AGWEDD

"Dw i bob amser wedi bod yn ymwybodol o bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg yn fy adran i o'r gwaith. Dw i ddim yn rhagweld cynnydd yn hwn." – Gweithiwr Gofal

"Dw i'n gweithio ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru felly mae'n bwysig i mi siarad Cymraeg ac mae rhai adrannau o'r gwaith erbyn hyn yn gofyn am y gallu i siarad Cymraeg" Swyddog Diwydiant a Rheolaeth

"Mae hwn wedi gwella gan fod y Cyngor eisiau mwy o weithwyr amlieithog." - Saer



“Rwy’n meddwl bod y Gymraeg yn bwysig iawn fel sgil i weithwyr yn y sector Gyhoeddus.” - Cynghorydd

“Mae’r Gymraeg bob amser wedi bod yn sgil bwysig ac yn ddefnyddiol yn arbennig mewn llywodraeth leo.” - Swyddog Mewnolwg Cwsmeriaid

“ Mae’n fantais medru cyfathrebu yn y Gymraeg yn y gweithle yn arbennig wrth ddelio a phobl bregus.” Gweithiwr Gofal

“Dwi’n meddwl bod Cymraeg yn sgil bwysig ar gyfer cael swydd dda.” – myfyriwr 16 oed

“Dw i’n gwybod bod cyflogwyr yn edrych am fwy o bobl ddwyieithog.” Myfyriwr Gofal Plant 17 oed

“Mae’n wych. Dw i’n ei hybu trwy’r amser ac yn ei ddefnyddio rwan ar leoliad gwaith. ” – Myfyriwr Gofal 19 oed

YMWYBYDDIAETH

"Mae'n dod yn fwyfwy pwysig i ddarparu gwasanaeth dwyieithog ym mhob maes o waith Cyfoeth Naturiol Cymru." - Ymgynghorydd Polisi

"Mae gan NRW bolisi Cymraeg cryf ac mae ein holl gyfathrebiadau'n ddwyieithog." - Swyddog Rheoleiddio Diwydiant

“Fel Aelod Arweiniol ar y Iaith Gymraeg yn Wrecsam, dwi'n deall pwysigrwydd yr iaith Gymraeg” - Cynghorydd

“Dwi'n ymwybodol o pa mor bwysig ydi o i gynnig gwasanaeth dwyieithog” - Gweinyddwr

“Fel sefydliad cenedlaethol (y DU) weithiau mae diffyg ymwybyddiaeth o bwysigrwydd a gofynion y Gymraeg y tu allan i Gymru. Mae agweddau lleol (o fewn Cymru) at yr iaith Gymraeg a chefnogaeth iddi yn ardderchog yn y gweithle ”- Cydlynnydd Addysg Ieuenctid

"Mynd i ddefnyddio hyn yn fwy oherwydd yr angen i wneud gwaith papur yn Gymraeg." - Gwaith Cymdeithasol

“Mae’n bwysig fod pawb yn cael siarad yn yr iaith o’u dewis nhw.” – myfyriwr 18 oed



“Mae na gynllun Mwy na Geiriau sy’n bwysig iawn ar gyfer gofal iechyd. “ myfyriwr - 17 oed

“Mae rhai plant yn siarad Cymraeg yn well na Saesneg – mae’n bwysig i;’r plant siarad 2 iaith.” – myfyriwr Gofal Plant 17 oed

HUNAN-ASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD A DYLANWAD Y PROSIECT

Y prosiect wedi llwyddo at wireddu y mwayfrif o’r nodau a’r amcanion a osodwyd fel a ganlyn:

Nodau

- **Y Gymraeg fel sgil ar gyfer y gweithle** – y dystiolaeth yn dangos fod y prosiect wedi cyfrannu’n fawr at gynyddu’r ymwybyddiaeth o’r Gymraeg fel sgil yn arbennig ymhlith pobl ifanc.
- **Creu gweithlu dwyieithog cryfach** - mae’r dystiolaeth yn dangos fod gweithwyr yn fwy hyderus i ddefnyddio’r Gymraeg yn eu gwaith
- **Budd i gyflogwyr lleol** - mae’r prosiect wedi cynyddu gallu cyflogwyr lleol i wella eu gwasanaeth dwyieithog.
- **Atgyfnerthu sefyllfa'r Gymraeg fel iaith egniol fyw a hwb go iawn i'r economi leol yn yr ardal hon** - hwn yn nod tymor hir ond y prosiect wedi mynd cam agosach at ei wireddu.

Amcanion

- **Normaleiddio’r defnydd o'r Gymraeg** - y dystiolaeth yn dangos fod hyder gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gweithleoedd wedi cynyddu
- **Defnyddio’r iaith yn ehangach wrth ddarparu gwasanaethau i’r cyhoedd mewn ystod eang o sefyllfaoedd** - ystod eang o staff mewn amryw o weithleoedd wedi mynegi eu bod yn gallu darparu gwasanaeth dwyieithog o ganlyniad i’r prosiect
- **Cynyddu ymwybyddiaeth pobl o werth y Gymraeg fel sgil** - y prosiect wedi cyfrannu’n fawr at hyn.
- **Canlyniadau gwell ar gyfer dysgwyr wrth iddynt ennill cymwysterau Cymraeg** - gweithlu’r dyfodol mewn meysydd blaenoriaeth wedi datblygu eu sgiliau yn Gymraeg
- **Sefydliadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau’n gweithio mewn partneriaeth a’i gilydd yn well i hyrwyddo ac i estyn y Gymraeg** - Camu wedi rhoi cyfle i nifer o bartneriaid gydweithio ar brosiectau arloesol a gwerthfawr.



GWERSI A DDYSGWYD WRTH GYNNAL Y PROSIECT

- **Sut mae'r canlyniadau wedi eu defnyddio i lywio eich prosiect?**

Gan ein bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau mewn un maes strategol, roedd cyfle i ffocysu ar ganlyniadau penodol dros gyfnod y prosiect. Mae'r canlyniadau yn galonogol ond yn pwysleisio maint yr heriau sy'n ein hwynebu wrth geisio datblygu a chynnal gweithlu dwyieithog yn y gogledd ddwyrain. O ran llywio'r prosiect i'r dyfodol, mae'r canlyniadau yn dangos fod angen datblygu'r gwaith efo pobl ifanc ymhellach er mwyn sicrhau bod gweithlu'r dyfodol yn gweld dwyieithrwydd fel y norm a'u bod yn hyderus yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

- **A oedd heriau neu rwystrau y bu'n rhaid eu hwynebu, a sut aethpwyd ati i'w goresgyn?**

Yr her fwyaf oedd ymgysylltu efo'r gymuned yn lleol a chyfathrebu pwrpas a nod y ganolfan. Gwnaethpwyd hyn drwy sefydlu Panel Ymgynghorol o fudiadau'r iaith Gymraeg yn y gogledd ddwyrain er mwyn rhannu arfer dda, cydweithio i hybu gwerth y Gymraeg fel sgil ar gyfer y gweithle a chyfrannu'n adeiladol i gynyddu defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus. Cynhaliwyd cyfarfodydd cyson er mwyn diweddarau'r aelodau o'r hyn oedd yn digwydd. Yn ogystal â hyn, cyflwynwyd adroddiadau ar y cynnydd a wnaethpwyd yng nghyfarfodydd Fforymau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn siroedd y Fflint a Wrecsam.





#DyddMwsgCymru
#WelshLanguageMusicDay

Cerddoriaeth Byw / Live Music

CHWALFA

Coleg Cambria,
Wrecsam

12.00 yp/pm

The block contains three logos at the bottom: the Coleg Cambria logo, a logo for "CYMRAG" (Welsh Language), and a logo for "Menter iFfoni" (Mentor for the Future).

